BBC

# Amodau a Thelerau Gweithwyr

**Amodu a Thelera u**

Mae’r Amodau a Thelerau Gweithwyr hyn yn gymwys ar gyfer unrhyw archebion gweithiwr sydd gennych gyda’r BBC yn y dyfodol (os na chant eu hamrywio yn unol â’r telerau hyn).

Ar yr adegau gwahanol y byddwch yn gweithio i’r BBC (a gyfeirir atynt fel ‘archebion’ o hyn allan), amlinellir manylion y gwaith hwnnw yn nogfennaeth yr archeb.

Gellid amrywio union ddisgrifiad a natur y gwaith gyda phob archeb. Fe’ch hysbysir o anghenion pob archeb unigol yn nogfennaeth yr archeb.

**Trefniadau Gwaith**

Mae gan y BBC ddisgresiwn llwyr ynghylch cynnig gwaith, ac nid oes oblygiad ar y BBC i ddarparu gwaith. Yn ychwanegol, does dim oblygiad arnoch chi i dderbyn unrhyw waith a gynigir gan y BBC ar unrhyw adeg. Nid oes oblygiad ar y BBC i roi unrhyw resymau dros beidio â chynnig gwaith.

Unwaith y cewch gynnig gwaith, a’i dderbyn, gosodir cytundeb rhyngoch chi a’r BBC am y cyfnod/gwasanaethau (fel y bo’n briodol) yn unol â’r archeb. Ystyrir pob cynnig i weithio yn archeb ar wahan, ac ni bydd perthynas rhyngoch chi a’r BBC yn ystod cyfnodau pan nad ydych yn gweithio i’r BBC.

Does dim yn yr telerau hyn na thelerau unrhyw archeb y gellid ei ystyried yn berthynas gyflogaethol ac ni bydd cytundeb cyflogaeth yn bodoli rhyngoch â’r BBC ar unrhyw adeg. Nid yw’r telerau hyn na thelerau unrhyw un o’ch achebion yn rhoi i chi haliau cyflogaeth o unrhyw fath (ar wahan i’r rheiny sy’n ddyledus i weithwyr yn unol â deddfwriaeth).

Pe bai’r BBC yn eich cyflogi fwy nag unwaith, nid yw hynny’n rhoi unrhyw hawliau cyfreithiol i chi, ac yn benodol, nid yw’n sefydlu unnrhyw hawl i waith pellach na gwaith cyson na bwriad i greu cyflogaeth barhaol. Ystyrir pob archeb gyda’r BBC a dderbyniwch yn gytundeb cwbl ar wahan, ac y gellid ei dorri. Ni fyddwch yn gyflogai i’r BBC ac felly ni bydd y cytundebau sy’n rheoli cyflogaeth gan y BBC yn berthnasol i chi.

**Gwaith**

Gall y BBC gynnig gwaith i chi o bryd i’w gilydd (a elwir yn ‘archeb’). Gellid amrywio union ddisgrifiad a natur y gwaith gyda phob archeb. Fe’ch hysbysir o anghenion pob archeb yn nogfennaeth yr archeb.

Cynigir pob archeb yng ngoleuni’r gwaith angenrheidiol ac oherwydd y gall eich gwaith barhau’n hwy na chyfartaledd o 48 awr yr wythnos, bydd angen i chi gytuno i’ch eithrio o gyfyngiadau gwaith wythnosol o dan y Rheoliadau Amser Gweithioo.

Pan fyddwch yn llofnodi ac yn cadarnhau derbyn y telerau hyn, rydych yn cytuno i’r drefn hon ar gyfer unrhyw archeb y gallai fodoli gyda’r BBC.

Medrwch roi rhybudd ysgrifenendig o dri mis neu fwy i’r BBC (neu weddill cyfnod eich archeb os yw’n llai) os dymunwch derfynu’r eithraid hwn.

**Telerau archebu**

Llywodraethir pob archeb, ac unrhyw amodau arbennig a amlinellir yn nogfennaeth yr archeb, gan y telerau hyn. Pe cyfyd unrhyw anghysondeb rhwng y telerau hyn ac amodau unrhyw archeb, rhoddir blaenoriaeth i'r telerau hyn os na nodir yn wahanol.

**Lleoliad**

Fe'ch hysbysir o leoliad unrhyw archeb gan eich archebwr/rheolwr. Gall y BBC ofyn i chi weithio mewn lleoliadau gwahanol yn y Deyrnas Unedig neu dramor pe bai angen rhesymol am hynny.

**Cyfradd Cyflogaeth**

Fe'ch hysbysir o gyfradd cyflog pob archeb unigol yn nogfennaeth yr archeb. Caniateir taliadau am unrhyw ddyddiau a weithiwyd yn ychwanegol at eich wythnos waith gytunedig (os yn bethnasol i'ch archeb) drwy gytundeb yn unig gyda'ch achebwr/rheolwr. Os na nodir yn wahanol, mae unrhyw dâl/ffi yn eich archeb yn hollgynhwysol ac ni bydd taliadau ychwanegol e.e. am nosweithiau na gweithio ar wyliau banc.

Os na chytunwyd yn benodol gyda'r BBC, nid oes modd i chi hawlio unrhyw gostau yn ychwanegol at eich cyflog. Pe cytunid ar gostau i unrhyw archeb penodol, mae'n amod sylfaenol gan y BBC wrth eich talu fod y costau yn angenrheidiol ac yn rhesymol wrth gyflawni unrhyw archeb, nad ydynt yn fwy na'r costau y gellid eu hawlio gan gyflogai i'r BBC o dan bolisïau cyflogaeth perthnasol, a'ch bod yn darparu i'r BBC dystiolaeth atodol o'r costau a dalwyd.

Rhiad i chi hawlio taliadau ar gyfer archebion yn brydlon drwy gydymffurfio â phroses y BBC (y rhoddir gwybodaeth i chi amdani) o fewn tair wythnos o ddiwedd yr archeb. Bydd y BBC yn talu'r hyn sy'n ddyledus erbyn diwedd y mis sy'n dilyn y mis i chi hawlio'r taliad.

Gall y BBC ddal taliad neu ran o daliad yn ôl os na ddarparwyd y gwasanaethau gennych yn unol â'r telerau a'r amodau hyn a/neu delerau ac amodau'r archeb penodol a gellid tynnu o'r taliad unrhyw symiau sy'n ddyledus gennych i'r BBC pryd bynnag y dylid bod wedi'u talu.

**TAW**

Mewn achosion pan fyddwch yn darparu eich rhif TAW, bydd y BBC yn talu eich cyfradd cyflogaeth ynghyd ag unrhyw dâl TAW cymwys o dderbyn hawliad tâl dilys, a fydd wedyn yn fffurfio'ch anfoneb TAW.

Pan fydd costau y cytunwyd arnynt yn cael eu hachosi yn ystod eich archeb gyda'r BBC, os ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW, p'run bynnag a ydych ar gynllun talu cyfradd gyson (*flat rate*) ai peidio, byddwch yn hawlio swm net eich costau cyn ychwanegu'r TAW perthnasol.

Dim ond mewn achos lle nad ydych wedi'ch cofrestru ar gyfer TAW y bydd y BBC yn ad-dalu'r TAW ac yn cynnwys yn y taliad holl werth y costau a achoswyd.

**Oriau Gwaith**

Bydd eich oriau gwaith ar gyfer unrhyw archeb yn amrywio yn ôl anghenion gweithredu y BBC ac yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'ch archebwr/rheolwr.

**Cyfyngiadau Cyllidol y BBC**

Byddwch yn cydymffurfio gyda chyfyngiadau cyllidol perthnasol y BBC (os yn berthnasol i'ch archeb) a phe baech yn mynd dros y mwyafswm heb ganiatâd blaenorol y BBC, ni bydd y BBC yn atebol i dalu unrhyw swm dros y terfyn cyllidol.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y gofynnir i chi gan y BBC fel rhan o'ch archeb i weithredu fel asiant i brynu a/neu dalu am nwyddau, cyfleusterau neu wasanaethau ar ran y BBC Mewn achos o'r fath, rhaid i 'r BBC gytuno yn ysgrifenedig cyn pob gwariant a rhaid i chi gael anfoneb TAW ar gyfer y BBC. Telir ad-daliadau yn unig pan fydd tystiolaeth o'r gwariant.

**Argaeledd**

Os ydych wedi derbyn archeb o dan y telerau a'r amodau hyn, ac yna yn methu â darparu'ch gwasanaeth am unrhyw reswm, rhaid i chi hysbysu'r BBC ar fyrder.

**Gwyliau**

Mae'r gwyliau sy'n ddyledus i chi'n dibynnu ar yr amser a weithiwch ac ar raddfa *pro rata* yn ôl hawl amser-llawn hyd at fwyafswm o 28 niwrnod yn ystod pob blwyddyn wyliau (gan gynnwys gwyliau cyhoeddus Cymru a Lloegr). Pe na baech yn cymryd eich hawl cyfan yn ystod pob archeb unigol, gwneir taliad *in lieu* o wyliau ar derfyn yr archeb hwnnw.

**Cymhwysedd**

Pan dderbyniwch unrhyw waith gan y BBC o dan amodaua'r telerau hyn, rydych yn tystio eich bod yn gymwys i ymgymryd â'r rôl benodol. Bydd eich cymhwysedd yn cynnwys (ond nid yn gyfyngedig i) m/feddu ar y profiad, hyfforddiant a/neu gymwysterau perthnasol a byddwch yn darparu safon ddisgwyliedig y sgil, y gofal a'r diwydrwydd y gellid eu disgwyl yn rhesymol oddi wrth unigolyn proffesiynol sy'n ymgymryd â'r rôl (gan gynnwys gweithredu o fewn terfynau cyllidol os ydy hynny'n rhan o'ch rôl a'ch gwaith cyn-ac ôl-gynhyrchu ac ailfformatio os yn berthnasol). Pe na byddech yn arddangos y cymwyseddau hyn, gall y BBC derfynu'ch archeb ar unwaith.

**Pensiwn**

Mae'r Llywodraeth yn gofyn i gyflogwyr ddarparu trefniant pensiwn gweithle i'w gweithwyr, a gelwir hynny yn 'ymrestriad pensiwn awtomatig'/*pensions automatic enrolment* (PAE). Mae'r BBC wedi dewis NEST (*National Employment Savings Trust*/Ymddiriedolaeth Cynilion Cyflogaeth Cenedlaethol) i ddarparu PAE. Mae'r BBC yn cadw'r hawl i ddefnyddio darparwr amgenach i NEST i ddarparu PAE ar unrhyw adeg yn y dyfodol.

Dewisodd y BBC ohirio ymrestru awtomatig am dri mis, felly (os ydych yn cyflawni amodau penodol gan gynnwys ystyried ei oed a'ch enillion) cewch eich ymrestru gyda NEST dri mis wedi dechrau archeb unigol gyda'r BBC. Darperir manylion pellach i chi am NEST, megis a fydd angen i chi gael eich ymrestru'n awtomatig a'r buddion pensiwn a fydd ar gael i chi, unwaith y dechreuwch ar bob archeb i'r BBC. Os cewch eich ymrestru'n awtomatig gyda NEST, cewch ddewis eithrio allan o NEST unwaith y cewch eich ymrestru'n awtomatig.

Hefyd, os oes gennych eisoes gynilion pensiwn sylweddol, ac wedi'ch cofrestru eisoes ar gyfer Amddiffyniad Penodedig/*Fixed Protection* neu Amddiffyniad Uwch/*Enhanced Protection* gyda CaTHEM/HMRC yna dylech fod yn ymwybodol fod posibilrwydd y bydd ymuno â chynllun pensiwn gyda'r BBC yn peri i chi golli'ch Amddiffyniad Penodedig neu Uwch yn y dyfodol. Os ydych yn amau fod hyn yn berthnasol i chi, awgrymwn eich bod yn holi ymgynghorydd ariannol annibynnol ynghylch

eich sefyllfa bensiwn a threth.

**Salwch**

Os ydych yn derbyn cynnig i weithio ond yna'n anabl i weithio ar y cyfnod a gytunwyd rhaid i chi roi gwybod i'ch archebwr/rheolwr am resymau'ch absenoldeb mor fuan â phosibl ar ddiwrnod cyntaf eich absenoldeb.

Ni bydd hawl gennych i unrhyw dal am gyfnod o salwch neu anaf yn ystod archeb. Os ydych yn derbyn tâl ag Yswiriant Cendlaethol wedi'i dynnu, efalai y cewch hawlio Tâl Salwch Statudol.

**Ymddygiad Disgwyliedig**

Ni bydd y BBC yn dioddef unrhyw ffurf ar fwlio na phoenydio, ac ymrwymodd i ddarparu gweithle lle y perchir urddas unigolion. Fe gytunwch, tra'n darparu eich gwasanaethau, na fyddwch yn ymddwyn mewn modd y gellid ei ystyred yn fwlio a/neu boenydio o dan Bolisi Bwlio a Phoenydio y BBC/ bullying-and-harassment-policy.pdf (neu unrhyw bolisi sy'n ei ddisodli). Ystyrir bod unrhyw fwlio neu boenydio yn weithred yn erbyn eich cytundeb ac y gallai beryglu parhad eich cyflogaeth gyda'r BBC.

**Gweithio gyda phlant/oedolion bregus**

Os ydych yn gweithio gyda phlant a/neu oedolion bregus mewn unrhyw fodd o fewn unrhyw archeb gyda'r BBC, gofynnir i chi gydymffurfio â Pholisi Amddiffyn Plant y BBC/ BBC Child Protection Policy Pe na byddech yn cydymffurfio â'r polisi, gellid terfynu'ch cyflogaeth gyda'r BBC.

**Datgan Diddordebau Personol**

Sicrhewch, os gwelwch yn dda, eich bod yn darllen Polisi Datgan Diddordebau Personol y BBC/ BBC declaration-of-personal-interests-policy.pdf, a'r amodau sy'n berthnasol i chi yn ystod unrhyw archeb gyda'r BBC.

Pe byddai gennych unrhyw ddiddordebau personol i'w datgan, dylech siarad â'c rheolwr/archebwr a chael Ffurflen Ddatgan Diddordebau Personol neu ewch i safle intranet Gateway y BBC. Cyflwynwch y ffurflen i'ch rheolwr/archebwr ar eich diwrnod cyntaf. Bydd eich rheolwr/archebwr yn trafod unrhyw ddiddordebau a ddatganwyd ac yn ystyried a oes angen datrys unrhyw wrthdaro yn ystod eich gwaith gyda'r BBC.

Rydych yn derbyn bod gennych gyfrifoldeb parhaus i ddatgan unrhyw wrthdaro gwirioneddol neu bosibl fel y mae'n codi. Rhaid i chi felly adolygu eich diddordebau personol wrth i'ch sefyllfa bersonol/fusnes newid (e.e. pan fyddwch yn symud neu'n dechrau gweithio ar archeb newydd i'r BBC) gan gynnwys unrhyw ddiddordebau personol a ddatganwyd gennych eisoes, a chyflwyno Ffuflen Ddatgan Diddordebau Personol ar unrhyw adeg yn ystod archeb pan fo gennych ddiddordebau personol i'w datgen.

**Cyfrinachedd**

Ni fedrwch heb ganiatâd ysgrifenendig blaenorol oddi wrth y BBC:

(a) ysgrifennu ar gyfer unrhyw gyhoeddiad na siarad yn gyhoeddus am y BBC na'i weithrediadau; na

(b) chyhoeddi neu ddatgan yn fwriadol i neb o dan unrhyw amgylchiadau wybodaeth gyfrinachol ynglŷn â materion busnes y BBC, ei gyflenwyr na'i gwsmeriaid a ddaeth i'ch meddiant drwy'ch gwaith gyda'r BBC; na

(c) chyhoeddi neu gylchredeg (gan gynnwys unrhyw dosbarthu ar-lein

heb gyfyngiad, flogiadau, Facebook, Flickr neu Twitter) unrhyw ffotograffau neu ddelweddau fideo y gellid eu cymryd tra ar dir neu leoliad y BBC.

**Ewyllys da/gweithgarwch allanol/cyhoeddusrwydd**

Byddwch yn dangos ewyllys da tuag at y BBC ar bob adeg, ac ni ddylech ddwyn anfri ar y BBC na, heb ganiatâd blaenorol gyfeirio at y BBC mewn unrhyw ddeunydd hyrwyddo na hysbysebu na siarad yn gyhoeddus am y BBC na materion cysylltiol.

**Hawliau Eiddo Deallusol (IPR) pob rôl**

(a) Mae HED/IPR yn golygu pob hawlfraint a hawliau perthynol, hawliau dyluniadau, nodau masnach, enwau masnachol ac enwau parth, hawliau ewyllys da, hawliau *get-up*, neu *passing-off*, hawliau meddalwedd, cronfeydd data, gwybodaeth gyfrinachol (gan gynnwys gwybodaeth a chyfrinachau masnachol), patent a hawliau i ddyfeisiadau a hawliau perchnogol eraill ymhob achos ac ymhob rhan o'r byd, naill ai'n gofrestredig neu heb gofrestru gan gynnwys pob cais i adnewyddu neu ymestyn y fath hawliau.

(b) Os na nodwyd yn wahanol mewn unrhyw ddogfennaeth archebu neu gytundeb atodol i unrhyw archeb, bydd pob HED/IPR mewn perthynas ag unrhyw waith (gan gynnwys gwaith yn y dyfodol) a grewyd gennych chi yn ystod cyfnod o waith i'r BBC pu'n ai yn ystod eich dyletswyddau ('y Gwaith') yn aros gyda'r BBC ac rydych yn trosglwyddo i'r BBC pob hawl perthnasol i'r Gwaith a phob hawl perthynol gan gynnwys gweithrediadau sy'n amharu ar neu'n torri ar yr hawliau hyn.

(c) Byddwch, ar gais y BBC, yn cyflawni popeth angenrheidiol neu ddymunol i sicrhau hawliau'r BBC o fewn y cymal hwn.

(d) Er mwyn osgoi amheuaeth, mae gan y BBC hawl i olygu, copïo, newid ac addasu pob Gwaith ac rydych yn ildio pob hawl moesol a fedr godi o dan y Ddeddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatent 1988 a phob hawl tebyg mewn awdurdodaethau eraill.

(e) Byddwch yn datgelu i'r BBC ar unwaith bob Gwaith a wnaed gennych (yn unigol neu gydag eraill) yn ystod cyfnod o archeb rhyngoch a'r BBC.

(f) Ni fyddwch yn gwneud cais i gofrestru na gwrthwynebu unrhyw gais gan y BBC i gofrestru unrhyw Waith neu unrhyw HED/IPR sy'n eiddo i'r BBC. Ni fyddwch yn fwriadol yn gwneud nac yn caffael unrhywbeth a allai beryglu cofrestradwyedd, dilysrwydd na gorfodadawyedd y BBC na'i HED/IPR

**Hawliau Eiddo Deallusol ychwanegol ar gyfer Cyfarwyddwyr, Cynhyrchwyr a Chynyrchwyr/Gyfarwyddwyr Teledu a Radio yn unig**

(g) Mae'r hawliau a ganiateir o dan (b) uchod yn cynnwys aseiniad gyda gwarant teitl llawn HED/IPR ymhob ffilm a wneir gan y Cyflenwr o fewn y telerau a'r amodau hyn lle maent yn brif gyfarwyddwr a/neu unrhyw gyfraniad a wneir ganddynt i'r sgriptiau.

(h) Mae'r Cyflenwr yn gwarantu mai ef yw unig berchennog cyfreithiol a buddiol yr hawliau a aseiniwyd yn (g) uchod ac nad ydynt wedi'u haseinio na'u trwyddedu, ac na fyddant yn cael eu haseinio nac yn trwyddedu unrhyw un o'r hawliau (ar wahan i'r hawl i gydnabyddiaeth ecwitïol sy'n deillio o ecsploitio hawliau rhentu neu fenthyg) ac eithrio'r hyn a nodir yn (g) uchod.

**Cynhyrchion**

(a) Os darperir cynhyrchion gennych, rydych yn gwarantu eu bod yn addas i'r pwrpas y'u darperir ar ei gyfer a lle bo'n briodol, eu bod o ansawdd derbyniol, adeiladwaith da, yn ddeunydd addas, cadarn a chryf ac wedi'u profi cyn eu cyflwyno.
(b) Byddwch yn caffael ar gyfer y BBC pob caniatâd angenrheidiol ynghyd â hawliau trydydd parti (gan gynnwys HED/IPR) mewn perthynas â'r cynnyrch.
(c) Bydd pob cynnyrch a ddarperir gennych yn cydymffurfio â phob cyfraith a rheoliad cyfredol perthnasol a chod ymarfer.
(d) Eich bod yn gwbl gyfrifol am gadw'r cynnyrch mewn modd addas a diogel hyd at ei drosglwyddo i'r BBC.
(e) Pe bai'r BBC yn canfod nad yw unrhyw gynnyrch a gyflwynir neu a gesglir neu yn ddiweddarach yn cydymffurfio â manylion archeb, yna gall, y BBC wrthod neu dderbyn unrhyw ran neu'r cyfan ohono, ac os caiff ei wrthod, gall y BBC hawlio ad-daliad am y cynnyrch gwrthodedig.

**Prynu**

Os oes angen i chi, fel rhan o unrhyw rôl o fewn archeb i'r BBC, brynu nwyddau neu wasanaethau rhaid i chi gydymffirfio â Rheolau Prynu'r BBC/ purchasing-policy.pdf.

**Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)/**

**Cynllun Diolgelu Grwpiau Bregus (PVG)**

Os ydych yn gweithio gyda phlant neu oedolion bregus o fewn unrhyw archeb, bydd eich archeb yn gymwys ar gyfer gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS), neu yn yr Alban aelodaeth y Cynllun PVG.

**Caniatâd i recordio/darlledu**

Bydd hawl gan y BBC, heb geisio caniatâd pellach gennych, a thrwy unrhyw ddull hysbys ar hyn o bryd neu a ddyfeisir yn y dyfodol i:

(a) Recordio unrhyw gyfraniad neu berformiad o unrhyw fath (p'un ai yn berfforniad ar gyfer pwrpasau Rhan II Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatent 1988 ac yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, gyfweliadau ai peidio) y gallech eu rhoi ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod eich archeb ac ar gais y BBC mewn unrhyw raglen gan y BBC (p'un ai y darlledwyd y rhaglen ai peidio); ac i

(b) Atgynhyrchu, darlledu neu gyfathrebu i'r cyhoedd record o unhryw gyfraniad neu berfformiad, neu awdurdodi eraill i wneud hynny ar unrhyw adeg yn ystod neu wedi i'ch archeb ddod i ben. Rheolir telerau unrhyw berfformiad a wneir y tu allan i'ch dyletswyddau arferol o fewn unrhyw archeb rhyngoch a'r BBC gan gytundeb priodol a fynnir gan y BBC ar yr adeg o dan sylw.

Ymhellach, ac yn ychwanegol, rydych yn trosglwyddo i'r BBC bob caniatâd angenrheidiol a hawliau eiddo mewn perthynas â hawliau perfformwyr o dan Ran II Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatent 1988, fel y caiff ei haddasu neu ei diweddaru yn y dyfodol, a phob caniatâd perfformwyr a hawl eiddo o dan unrhyw ddeddf bresennol neu yn y dyfodol, neu ddeddfwriaeth mewn grym mewn unrhyw ran o'r byd i alluogi'r BBC i wneud y defnydd llawnaf o'ch performiadau.

**Diogelu Data**

Mae'r BBC wedi ymrwymo i ddiogelu preifatrwydd a digelwch eich manylion personol.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd Pobl/ BBC People Processing Notice yn disgrifio sut y casglwn a defnyddiwn fanylion personol amdanoch yn ystod ac ar ôl eich cyfnod o weithio gyda ni, yn unol â Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data 2016/679 (GDPR). Os ydych am fanylion pellach am y modd y prosesir eich data personol, gofynnwn i chi ddarllen y ddogfen hon, a gynhwysir yn yr hysbysiad hwn er mwyn hwylustod cyfeiro.

Gellid dod o hyd i wybodaeth ychwanegol ynghylch sut y defnyddiwn eich manylion personol ac am ba hyd y byddwn yn ei gadw yn y Llawlyfr Diogelu Data a'r Amserlen Gadw Gorfforaethol.

Eich cyfrifoldeb chi yw ymgynefino â pholisïau prosesu data y BBC a'r cyhoeddiadau a nodir uchod. Cysylltwch â'ch rheolwr neu gyswllt allweddol pe bai gennych unrhyw ymholiad ynglŷn â phrosesu data gan y BBC neu os ydych am gopi caled o'r polisïau.

Eich cyfrifoldeb chi yw diogelu unrhyw ddata personol neu ddata'r BBC a ddefnyddir gennych yn ystod eich cyflogaeth.

Ar diwedd eich cytundeb ni ddyild cadw unrhyw ddata sy'n perthyn i chi neu'r BBC na'i ailddefnyddio at unrhyw bwrpas na chaniatawyd gan y BBC. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw eiddo deallusol a grewyd, datblygwyd neu ddefnyddiwyd gan gyflogai yn ystod cyfnod ei gyflogaeth.

Os ydych yn defnyddio TG y BBC, mae'r Adran Gyfarpar isod yn cysylltu â Pholisi Defydd Derbyniol Systemau Gwybodaeth y BBC/BBC's acceptable-use-policy.pdf. Rhaid cydymffurfio â'r canllawiau hyn wrth ddefnyddio TG a chyfarpar arall y BBC.

**Cymhwysedd i weithio yn y DU**

Mae pob archeb o dan yr amodau hyn yn dibynnu ar eich hawl - a chynnal yr hawl hwnnw - i weithio yn y DU.

**Cydymffurfiaeth Olygyddol**

Mae'r BBC yn gofyn i bawb sy'n gweithio i ddarparu cynnwys, i ymgynefino â, a gweithio yn unol â Chanllawiau Golygyddol y BBC a chanllawiau cysylltiol. Mewn rôl felly, rydych yn cyfrannu at ein gwaith o gynhyrchu cynnwys a gwasanaethau cymhellol, felly mae'n hanfodol fod eich penderfyniadau a'ch gweithrediadau yn fuddiol i'r BBC a'i werthoedd. I'ch helpu gyda hyn mewn sefyllfa o greu cynnwys wrth weithio i'r BBC, rydych yn cytuno i ymgynefino â Chanllawiau Golygydol y BBC/BBC editorial guidelines a gofynnir i chi fel rhan o'ch dyletswyddau i sylwi ar, a chydymffurfio â hwy ac â'u hamrywiadau achlysurol. Ystyrir bod methu â gweithio o fewn y canllawiau Golygyddol yn fater difriifol a fedr beryglu'ch gwaith/archeb gyda'r BBC.

**Gwrth-lwgwrwobrwyo**

Cytunwch i gydymffurfio â Deddf Lwgwrwobrwyo 2010 a Chod Ymarfer a Pholisi Gwrth-lwgwrwobrwyo'r BBC/ anti-bribery-policy.pdf. Bydd unrhyw fethiant neu dorri ar y ddyletswydd hon yn cael ei ystyried yn doriad gwirioneddol o fewn telerau ac amodau unrhyw archeb o'ch eiddo.

**Iechyd a Diogelwch**

Rydych yn gyfrifol am gydymffurfio â safonau iechyd a diogelwch sy'n berthnasol o fewn amodau'ch archeb, a byddwch bob amser yn cydymffurfio â rheoliadau iechyd a diogelwch cyfredol y BBC a welir ar safle Safety y BBC.

**Yswiriant**

Os ydych, o fewn i unrhyw archeb, yn creu cynnyrch, rhaid i chi drefnu a chynnal yswiriant addas i'r cynnyrch.

Os ydych yn darparu cyfarpar ar gyfer unrhyw archeb, rydych yn gyfrifol am yswirio'r offer hwnnw.

Cewch weld mwy am agwedd y BBC am yswirio gweithwyr yma thrwy siarad â'ch rheolwr/archebwr neu Adran Yswiriant y BBC.

I weithwyr sy'n cael taliad *gross* am archeb o dan y telerau a'r amodau hyn, mae anghenion yswiriant penodol yn berthnasol i ambell rôl. Mae'r roliau hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:

- Effeithiau Arbennig ac Arbenigwyr Pyrotecnic
- Arfogwyr
- Gweithwyr a gyflogir yn benodol i ddarparu digelwch/amddiffyniad personol neu wasanaethau yn ymwneud â iechyd a diogelwch
- Gweithwyr a gyflogir yn benodol i ddarparu mynediad drwy raffau a goruchwylio plymio sgwba
- Gweithwyr sy'n darparu a/neu yn goruchwylio gweithredu gydag Anifeiliaid Peryglus fel a ddiffinir yn y Ddeddf Anifeiliaid Peryglus perthnasol (neu reoliadau dilynol)
- Gweithwyr sy'n darapru gwasanaeth fel Arweinyddion Alldeithiau
- Gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau meddygol (e.e. Ymgynghorwyr, Meddygon, Parafeddygon, Nyrsus etc.)

Ar gyfer archebion o'r fath, byddwch yn trefnu Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus digonol gydag yswiriwr cydnabyddiedig, a lle bo'n briodol, Yswiriant Atebolrwydd Cynnyrch a/neu Yswiriant Indemniad Proffesiynol, y bydd pob un ohonynt â therfyn aterbolrwydd o ddau filiwn o bunnoedd sterling (£2,000,000) o leiaf, ar gyfer pob digwyddiad, a chyda amddiffyniad digonol ar gyfer holl waith yr archeb. Gall y BBC amrywio anghenion yswiriant o'r fath a'r mathau o wasanaethau y maent yn berthnasol iddynt. Er mwyn osgoi amheuaeth, ni bydd isafswm lefel yswiriant yn gyfyngiad ar atebolrwydd o fewn yr archeb.

Byddwch yn darparu ar gyfer y BBC, pe bai galw, gopïau o'r polisïau yswiriant wedi'u cynnal yn unol â'r telerau hyn a/neu amodau y manylwyd arnynt yn nogfennaeth eich archeb.

**Gyrru tra ar waith y BBC**

Os gofynnir i chi yrru er mwyn cyflawni'ch gwasanaeth o dan unrhyw archeb i'r BBC (p'un ai a gytunodd y BBC i'ch talu am wneud hynny ai peidio) rhaid i chi feddu ar ddatganiad gyrrwr y BBC cyfredol, a thrwydded yrru briodol.

Pe byddech yn darparu'r cerbyd y byddwch yn ei yrru ar fusnes y BBC, rhaid i'r BBC ganiatàu defnyddio'r cerbyd a rhaid i chi gytuno i gydymffurfio â Pholisi Cerbydau Modur y BBC, gan gynnwys yr angen i ddal yswiriant modur priodol.

Rhaid i chi gytuno i ddarparu ar gyfer y BBC, pe bai galw, wybodaeth a dogfennaeth i ddangos eich bod yn cydymffurfio ag angnehion y BBC.

Gwelir manylion pellach ym Mholisi Cerbydau Modur y BBC/ BBC Motor

[Vehicle Policy]

**Indemniad**

Byddwch yn darparu indemniad ar gyfer y BBC yn erbyn pob cost (gan gynnwys costau cyfreithiol), colledion ac atebolrwydd a allai gael eu cyfeirio at y BBC o ganlyniad i:

(a) ddiffyg ar eich rhan wrth fethu â cydymffurfio â'ch oblygiadau neu ddyletswyddau o dan yr amodau hyn neu amodau unrhyw un o'ch archebion;

(b) eich esgeulustod neu ddiffyg bwriadol;

(c) unrhyw hawliad gan drydydd parti a wnaed o ganlyniad i'ch gwaith neu'ch diffygion (gan gynnwys unrhyw dorri ar hawl HED/IPR a ddarparwyd neu a ddefnyddiwyd mewn cyswllt â'r temau hyn neu delerau unrhyw archeb);

(d) ni byddwch chi na'r BBC yn atebol am unrhyw golled 'ganlyniadol' neu 'arbennig' neu 'anuniongyrchol', na cholli elw, refeniw a/neu fusnes, cynilion a ragwelwyd ymhob achos unigol, p'un ai a ystyriwyd hynny gan unrhyw barti wrth gychwyn yr archeb ai peidio, os na nodwyd yn benodol yn yr archeb.

**Cyfarpar**

Pe bai'r BBC yn caniatàu i chi ddenfyddio unrhyw offer sy'n eiddo i'r BBC, rhaid i chi ymgynefino â chanllawiau'r BBC ar dderfnyddio TG a chyfarpar cysylltiol. Rhaid i chi gytuno i ddarllen a chydymffurfio â Pholisi Defnydd Derbyniol o Systemau Gwybodaeth y BBC [BBC's Acceptable use Policy].

Pe baech yn darparu offer fel rhan o unrhyw archeb, byddwch chi'n gyfrifol am ofal, rheolath, diogelwch, yswiriant a chynnal a chadw'r offer hwnnw. Fe all fod y BBC yn darparu ardal i storio unrhyw offer, ond nid oes dyletswydd ar y BBC i wneud hynny.

**Amnewid**

Gyda chaniatâd ysgrifenedig blaenorol y BBC, ac yn ddarostyngedig i'r amod canlynol, gellwch benodi person cymwys a medrus i gyflawni gwasanaethau ar gyfer unrhyw archeb ar eich rhan, cyhyd â bod y BBC yn derbyn yr amnewid a bod y person a amnewidir yn dechrau ar waith uniongyrchol gyda'r BBC yn union fel y gwnaethoch chi o dan y trefniant hwn, yn cynnwys cyfrinachedd. Os ydy'r BBC yn derbyn yr amnewid, byddwch yn parhau i gael eich talu a byddwch yn gyfrifol am dalu'r person a amneidiwyd.

Pan benodir amnewid, gyda chaniatâd y BBC am waith a fedr gynnwys awyrennau, (gan gynnwys hofrenyddion, balŵns, modelau o awyrennau, parasiwts); arfogwyr, asbestos; plymio, ffrwydron, effeithiau tân a phyrotecnics, bale hedegog, contractwyr hoist heidrolig, pelydrau laser, goleuo lleoliadau, sgaffaldiau a strwythurau tebyg, rigwyr a gweithwyr gwifrennol arbenigol; effeithiau mwg ac artistiaid arbenigol, cewch ddefnyddio yn unig y rhai hynny a fetiwyd gan y BBC i'r pwrpasau hynny, a gall y BBC ddarparu rhestr briodol i chi o dderbyn cais gennych.

Bydd pob atebolrwydd am unrhyw amnewid yn gyfrifioldeb i chi, a bydd disgwyl i unrhyw newid a benodir gennych chi fod yn ddarosyngedig i i'r un oblygiadau ag y byddech chi'n ddarostyngedig iddynt o dan yr amodau hyn neu amodau penodol unrhyw archeb. Byddwch yn cyflawni popeth angenrheidiol i sicrhau bod yr amnewid yn cydymffurfio â'r rhain, gan gynnwys, os bydd galw, dderbyn ymrwymiad gan yr amnewid i ffafrio'r BBC, a'i ymrwymo i gydymffurfio â'r telerau a rhoi iddynt yr holl wybodaeth berthnasol a ddarparwyd i chi gan y BBC.

**Darlledu**

Mae barn olygyddol y BBC yn derfynol ac nid oes oblygiad ar y BBC i ddarlledu unrhyw raglen yr ydych chi wedi darparu gwasanaethau ar ei chyfer.

**Telerau ychwanegol ar gyfer Cyfarwyddwyr, Cynhyrchwyr. Cynhyrchwyr/Gyfarwyddwyr Teledu a Radio**

a) Efallai y cewch wahoddiad, gyda rhybudd priodol, i ddarparu gwasanaethau ategol i unrhyw archeb sydd gennych y tu allan i gyfnod yr archeb. Bydd y BBC yn ymdrechu, o fewn anghenion golygyddol a gweithrediadol y BBC, i amserlennu darparu'r fath wasanaethau atodol ar adeg pan fyddwch ar gael. Pe na byddech ar gael i ddarparu'r fath wasanaethau ar adeg angenrheidiol, mae hawl gan y BBC i gaffael y gwasanaethau oddi wrth Gyfarwyddwr/Cynhyrchydd/Cynhyrchydd-Gyfarwyddwr arall.

b) Byddwch yn cydnabod fod y tâl a nodwyd yn nogfennaeth yr archeb yn ystyried yr holl amgylchiadau, ac yn cael ei ystyried gennych chi i gynnwys tâl teg o ran unrhyw rent ar eich cyfranidau.

c) Bydd hawl gennych i dderbyn yn llawn gostau a dalwyd yn gyfangwbl gennych chi wrth ddarparu eich gwasnaethau. Mae'n amod cynseiliedig gan y BBC wrth wneud unrhyw daliad i chi fod y costau yn rhai angenrheidiol a dilys gennych chi wrth ddarparu'r archeb, ac nad yw'r costau'n uwch na'r rhai y byddai hawl gan gyflogeion y BBC eu cael o dan bolisïau cymwys y BBC, a'ch bod wedi darparu ar gyfer y BBC dystiolaeth briodol o'r costau.

d) Os ydych o dan gytundeb fel Cyfarwyddwr Teledu ar gyfer unrhyw archeb, yn unol â'ch bod (i) yn darparu'r holl wasanaethau gennych o dan unrhyw archeb, a (ii) heb dorri ar unrhyw amod yn y trefniant hwn nac yn nogfennaeth eich archeb, rhoddir i chi gredyd 'Cyfarwyddwyd gan' mewn copïau o'r rhaglen a wnaed gan y BBC fel cyfarwyddwr y rhaglen, fel arfer yn y safle olaf yn y credydau blaen. Bydd union ffurf y credyd yn unol â Chanllawiau Credyd y BBC.

e) Gweithredir unrhyw archebion rhyngoch chi a'r BBC gennych chi a'r BBC yn unol â Chyd-ddatganiad Cyfarwyddwyr y BBC ar Hawliau a Chyfrifoldebau Creadigol (h.y. gan gyfeirio at Gynyrchiadau Drama neu Ffeithiol fel bo'n briodol).

f) Byddwch yn adrodd i'r Cynhyrchydd ar bob mater ynghylch cynhyrchu'r rhaglen(ni) o dan y telerau hyn (os yn berthnasol), cyhyd â'ch bod yn medru trafod yn gyfrinachol gyda Phennaeth Cynhyrchu neu aelod priodol arall o Adnoddau Dynol y BBC unrhyw faterion sylweddol na ddatryswyd drwy'ch ymdrechion rhesymol i gyrraedd cytundeb arnynt gyda'r Cynhyrchydd.

g) Ynghylch atebolrwydd, ni fyddwch yn atebol o ran unrhyw ddeunydd a ddarparwyd i chi gan y BBC.

**Polisïau'r BBC**

Yn ystod pob archeb, byddwch yn cydymffurfio gyda pholisïau, canllawiau, llawlyfrau a gweithdrefnau cyfredol y BBC sy'n berthnasol i'ch archeb, yn ôl y galw. Mae'r BBC yn cadw'r hawl i addasu unrhyw bolisi, canllaw, llawlyfr neu weithdrefn yn unol ag anghenion busnes a/neu ddatblygiadau perthnasol mewn arfer neu deddfwriaeth fusnes.

**Diogelwch/Mynediad/Arolygaeth**

Byddwch yn cael oddi wrth y BBC gardiau adnabod neu ganiatâd mynediad a rhaid arddangos y rhain tra ar dir y BBC. Byddwch yn dychwelyd y cardiau neu'r caniatâd i'r BBC ar derfyn neu ddiddymiad yr archeb.

Gall y BBC ofyn am, a derbyn, gwybodaeth adnabyddiaeth oddi wrthych a chynnal gwiriad diogelwch ar hap, gan gynnwys archwilio'ch eiddo a'ch cerbyd(au) tra'ch bod ar dir y BBC.

Bydd y BBC, yn ôl ei ddisgresiwn a thrwy drefniant blaenorol, yn medru rhoi mynediad i chi i adeiladau'r BBC ac i gyfleusterau cyffredinol y BBC (e.e. arlwyaeth a thoiledau) o fewn adeiladau'r BBC er mwyn i chi yn rhesymol gyflawni'ch oblygiadau o fewn eich archeb. Er hynny, gall y BBC wrthod mynediad i, neu symud oddi ar dir y BBC unrhyw berson yr ystyria'r BBC ei fod yn annerbyniol am ba reswm bynnag, ac eithrio er mwyn tanseilio'r archeb.

**Didyniadau Tâl**

Bydd hawl gan y BBC ar unrhyw adeg yn ystod archeb neu wedi i'r archeb orffen i dynnu o'ch tâl a/neu unrhyw daliadau eraill sy'n ddyledus i chi unrhyw arian sy'm ddyledus gennych i'r BBC, gan gynnwys, ond nid yn unig, ordaliadau, gwyliau neu unrhyw drefniadau ar gyfer costau.

**Terfynu**

Os cynigiodd y BBC waith penodol yn unol â'r amodau hyn, a'ch bod wedi'i dderbyn neu yn gweithio o'i fewn, gellid terfynu eich archeb o dan yr amodau canlynol, yn ddibynnol ar eich rôl:

1. Pob rôl ac eithrio Cyfarwyddwyr, Cynhyrchwyr a Chynhyrchwyr-Gyfarwyddwyr Teledu a Radio.

Gall y BBC derfynu eich archeb ar unwaith a thalu am waith a wnaed hyd at ddyddiad y terfyniad yn unig os:

a) ydy'r BBC yn ystyried eich bod wedi torri eich oblygiadau ac nad oes modd eu hadfer, neu os
b) ydy'r BBC yn ystyried eich bod wedi torri eich oblygiadau a bod modd eu hadfer, ond eich bod chi wedi methu ag adfer y diffyg o fewn 7 niwrnod o roi rhybudd i chi o'r diffyg (neu gyfnod byrrach os yn rhesymol), neu
c) eich bod wedi cyflawni gweithred o gamymddwyn sylweddol, neu os
d) ydy performiad parhaus yr archeb yn cael ei atal gan amodau y tu hwnt i'w reolaeth, neu
e) eich bod yn analluog i ddararu'ch gwasanaethau am unrhyw reswm.

Os terfynir eich archeb ym marn y BBC am unrhyw reswm ariannol, golygyddol neu arwyddocaol arall, cewch eich talu am waith a wnaed hyd at ddyddiad y terfyniad a bydd y BBC naill ai yn:

a) rhoi 24 awr o rybudd o derfyniad os ydych yn cael eich talu ar sail PAYE
b) gwneud taliad i chi sy'n hafal ag wythnos o dâl neu weddill cyfnod yr archeb, p'un bynnag sydd leiaf os y'ch telir ar sail *gross*.

2. Cyfarwyddwyr, Cynhyrchwyr a Chynhyrchwyr/Gyfarwyddwyr Teledu a Radio

Gall y BBC derfynu'ch archeb ar unwaith a thalu am waith a wnaed hyd at ddyddiad y terfyniad yn unig os:

a) yw'n ystyried eich bod wedi torri amodau eich cyfrifoldebau ac nad oes modd eu hadfer, neu
b) mae'n ystyried eich bod wedi torri'ch oblygiadau, ac er bod modd eu hadfer, eich bod chi wedi methu â'u hadfer o fewn 7 niwrnod o'r toriad (neu gyfnod byrrach os yw'n rhesymol), neu os
c) ydych wedi cyflawni gweithred o gamymddygiad sylweddol, neu os
d) ydy perfformiad parhaus yr archeb yn cael ei atal gan amodau y tu hwnt i'w reolaeth, neu
e) eich bod yn analluog i ddarparu'ch gwasanaethau am unrhyw reswm.

Os terfynir eich archeb am unrhyw reswm ac eithrio a-e uchod, gellwch hawlio y ffi lawn a nodwyd yn eich archeb sy'n dal heb ei thalu ar ddyddiad y terfynu, gan ystyried camau arferol i leihau colled.

Beth bynnag yw'ch rôl, os ydych yn disgwyl derbyn neu wedi derbyn taliad yn unol â'r cymal hwn ('taliad'), ond wedi'ch archebu i weithio gyda'r BBC a/neu unrhyw gwmni cysylltiol yn ystod yr un cyfnod ag y byddech yn disgwyl derbyn/wedi derbyn tâl yn iawndal am yr archeb blaenorol, yna nid yw'r taliad yn daladwy.

Mae disgwyl i chi ddatgelu hyn i'r BBC ac ad-dalu unrhyw dâl a gawsoch. Os daw'r BBC yn ymwybodol eich bod wedi torri ar hyn, mae'n cadw'r hawl i fynnu ad-daliad ar unwaith a/neu derfynu'ch archeb ar unwaith heb wneud unrhyw dâl.

O derfynu archeb, neu ar ei ddiwedd, rydych yn cytuno i ddychwelyd i'r BBC unrhyw eiddo o unrhyw fath gan gynnwys cardiau adnabod a chaniatâd mynediad i adeiladau'r BBC, i'ch archebwr/rheolwr beth bynnag fo'r amgylchiadau a arweiniodd at derfynu neu ddiwedd yr archeb.

**Newid Telerau ac Amodau**

Gall y BBC adolygu ei anghenion ar gyfer gweithwyr o bryd i'w gilydd a/neu ddiweddaru'r amodau sy'n rheoli'r fath waith. Pe bai unrhyw newid i'r telerau sy'n berthnasol i barodrwydd y BBC i gyflogi gweithwyr, bydd y BBC yn eich hysbysu.

**Cyfraith Lywodraethu**

Llywodraethir y telerau hyn a thelerau unrhyw un o'ch archebion gan Gyfraith Loegr.